

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir

Ebrill 2019

Cyflwyniad

1. Yn ei gyfarfod ar 3 Ebrill 2019, trafododd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Pwyllgor') Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir.

Y cefndir

2. Ar 15 Mawrth 2019, gosododd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â'r Bil.

3. Ar 19 Mawrth 2019, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor hwn i'w drafod, gan nodi mai'r dyddiad cau ar gyfer adrodd yn ôl oedd 25 Ebrill 2019.

4. Mae dadl ynghylch Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, yn gofyn i'r Cynulliad gydsynio â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil (fel y'u hamlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol), wedi ei threfnu yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Ebrill 2018.

Trosolwg o'r Bil

5. Bil Aelod Preifat yw'r Bil hwn. Fe'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Mawrth 2018.



6. Amcan polisi cyntaf y Bil, sy'n ymwneud â Lloegr yn unig, yw rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Defra sefydlu cyrff newydd o'r enw "Awdurdodau Afonydd". Nid oes angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer hyn.

7. Yr ail amcan polisi, sy'n ymwneud â Chymru, yw mynd i'r afael â rhwystr presennol rhag cynyddu treuliau rhai Byrddau Draenio Mewnol dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad â nhw

8. Ceisir cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y darpariaethau a ganlyn.

Cymal 2: Prasio 'tir arall' mewn ardal ddraenio

9. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 37 o Ddeddf Draenio Tir 1991 i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n sefydlu methodoleg amgen ar gyfer cyfrifo gwerth tir arall mewn ardal ddraenio fewnol.

10. Mae'r cymal hwn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau eraill yn Neddf 1991 ac i adran 83 o Ddeddf 2016.

Cymal 4: Prasio tir amaethyddol mewn ardal ddraenio

11. Mae'r cymal hwn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau a all sefydlu methodoleg amgen ar gyfer cyfrifo gwerth eiddo trethadwy (tir ac adeiladau amaethyddol) mewn ardal ddraenio fewnol. Byddai'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru mewn Bil y DU

12. Mae'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil hwn:

“Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol i ymdrin â'r darpariaethau yn y Bil DU hwn, am ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol sydd fwyaf ymarferol a chymesur i alluogi i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys i Gymru.”

Ein barn

- 13.** Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn credu bod y Bil yn gyfrwng deddfwriaethol priodol i weithredu'r newidiadau hyn ac na fydd unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru yn deillio o'r Bil.
- 14.** Ym marn y Pwyllgor, nid oedd unrhyw reswm i beidio â chytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm.